LIVING STREETS

Croeso i

# SÊR SYMUD

## Canllaw ystafell ddosbarth

**Yr her teithio i'r ysgol newydd gan Living Streets.**

Mae'r canllaw hwn yn esbonio popeth y mae angen i chi ei wybod i gymryd rhan yn Sêr Symud gyda'ch dosbarth.

## Beth yw Sêr Symud?

**Mae Sêr Symud yn ysbrydoli disgyblion i deithio'n llesol ac yn gynaliadwy i'r ysgol drwy gystadleuaeth gyfeillgar a gwobrau diddorol.**

Mae Sêr Symud yn her fisol lle mae disgyblion yn cofnodi sut maen nhw'n teithio i'r ysgol bob dydd gan ddefnyddio platfform Sêr Symud.

Mae'n bosib ennill pwyntiau am wahanol ddulliau teithio, gyda phwyntiau bonws am fod yn actif a chofnodi rheolaidd. Mae pob dosbarth yn gweithio gyda'i gilydd i ennill y sgôr uchaf bob mis, tra gall disgyblion hefyd ennill cydnabyddiaeth unigol am gyfranogiad a gwelliant.



LIVINGSTREETS.ORG.UK/MOVEMAKERS

# PAM MAE TEITHIO'N LLESOL I'R YSGOL YN BWYSIG?

**Mae cerdded, troelli, beicio neu sgwtera i'r ysgol yn cefnogi iechyd corfforol eich disgyblion ac yn eu helpu i gyrraedd yr ysgol yn llawn egni ac yn barod i ddysgu a chanolbwyntio.**

Mae llai o geir o amgylch gatiau'r ysgol yn gwneud y strydoedd yn fwy diogel ac yn fwy dymunol i'r gymuned gyfan hefyd.



## SUT YDYN NI'N CYMRYD RHAN?

- Mewngofnodwch i Sêr Symud gan ddefnyddio'ch cyfrinair tri gair: **movemakers.org.uk**
- Mae disgyblion yn dewis eu henw/eicon ac yn dewis eu dull teithio
- **Os ydych chi'n brin o amser, defnyddiwch y modd swp:**
  - cymerwch arolwg llaw i fyny cyflym
  - cofnodwch deithiau'r dosbarth mewn un tro

**AWGRYM** Gwnewch cofnodi yn rhan o'ch trefn arferol fel bod disgyblion yn ei wneud yn gyson.



## MODD YMARFER

Bydd Sêr Symud yn cael ei ddefnyddio yn y Modd Ymarfer y tro cyntaf i chi ei ddefnyddio. Cyn lansio'r her yn yr ysgol, gofynnwch i'ch dosbarth gofnodi sut maen nhw fel arfer yn teithio i'r ysgol yn y modd hwn. Mae hyn yn gosod man cychwyn manwl gywir ar gyfer yr her heb ddylanwadu ar ymatebion disgyblion.

Unwaith y bydd eich Hyrwyddwr Sêr Symud wedi lansio'r her yn yr ysgol, mae eich dosbarth yn barod i ddechrau cofnodi a chasglu pwyntiau!



## ANNOG EICH DOSBARTH

- Anfonwch y daflen i rieni a gofalwyr adref unwaith y bydd yr her wedi'i lansio
- Atgoffwch y disgyblion fod pob taith sy'n cael ei chofnodi yn ennill pwyntiau
- Dathlwch gofnodi dyddiol a bod yn actif
- Adeiladwch gyffro o amgylch y byrddau arwain misol
- Ewch i livingstreets.org.uk/movemakers i gael manylion am y pwyntiau sydd ar gael ar gyfer gwahanol ddulliau teithio

## GWOBRAU MISOL

### AR DDIWEDD POB MIS:

**Mae Sêr Symud yn cyfrifo'n awtomatig y dosbarth buddugol a'r disgyblion yn y tri safle uchaf yn eich dosbarth. Bydd hefyd yn cyfrifo pwy yw Ysgogwr Newid y dosbarth, sef y disgybl sydd wedi dangos y gwelliant mwyaf.**



## GWOBRAU DOSBARTH

- Y dosbarth gyda chyfanswm y pwyntiau uchaf fesul disgybl fydd enillydd misol Sêr Symud. Mae'r dosbarth hwnnw'n cadw masgot Strider am y mis nesaf.
- Beth am gadw dyddiadur am anturiaethau Strider gyda'r dosbarth buddugol bob mis?



## GWOBRAU UNIGOL

- Rhowch sticer Sêr Symud i bob disgybl a gofnododd y mis hwnnw
- Anogwch y disgyblion i gasglu'r sticeri ar eu nod tudalen Sêr Symud
- Ewch i livingstreets.org.uk/movemakersrewards i ddarganfod y stori y tu ôl i bob sticer, yng ngeiriau'r plant a'u dyluniodd
- Dathlwch y disgyblion yn y tri safle sgorio uchaf (aur, arian ac efydd) yn eich dosbarth
- Rhowch y sticer Ysgogwr Newid i'r disgybl a wnaeth y gwelliant mwyaf yn eich dosbarth.

**Gallwch chi ddathlu cerrig milltir dosbarthiadau ac unigolion mewn unrhyw ffordd hwyliog sy'n addas i'ch ysgol: boed hynny'n amser aur ychwanegol, rhoi marblen yn y jar gwobrau neu unrhyw draddodiad hwyl arall y mae eich disgyblion yn ei fwynhau!**

**Byddem wrth ein bodd yn gweld sut mae eich dosbarth yn dathlu. Gofynnwch i'ch Hyrwyddwr Sêr Symud rannu eich straeon a'ch lluniau gyda Living Streets.**

SÊR SYMUD

**LIVINGSTREETS.ORG.UK/MOVEMAKERS**

FSC www.fsc.org MIX Paper | Supporting responsible forestry FSC® C113442

Mae'r daflen hon wedi'i chynhyrchu gydag inciau sy'n seiliedig ar lysiau. Mae wedi'i greu o ddeunydd o goedwigoedd sydd wedi'u rheoli'n dda ac sydd wedi'u hardystio gan FSC® ac o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

**Ni yw living streets, elusen y DU dros gerdded bob dydd**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409.